

Crynodeb United Welsh: Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth

Ionawr 2026 – Ionawr 2027



Gweledigaeth

Mae United Welsh yn dod yn sefydliad gwrth-hiliol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud?

Mae ein Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol yn canolbwyntio ar dri maes:

1. Cynrychiolaeth

Byddwn yn gweithio'n barhaus i gynnal a gwella amrywiaeth ethnig Bwrdd a staff United Welsh ar bob lefel.

2. Darparu gwasanaeth

Byddwn yn ymgorffori gwrth-hilioldeb a chydraddoldeb hiliol drwy gydol ein dyluniad a'n darpariaeth gwasanaeth.

3. Cyfathrebu ac ymgysylltu

Byddwn yn dangos ein cefnogaeth i gydraddoldeb hiliol ac yn darparu llwyfannau i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig lunio, dylanwadu a newid y gwasanaethau a ddarparwn.

Pam?

1. Byddwn yn dangos ein cefnogaeth i gydraddoldeb hiliol ac yn darparu llwyfannau i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig lunio, dylanwadu a newid y gwasanaethau a ddarparwn.
2. Rhaid i ni fod yn rhan o'r ateb. Er mwyn dod yn wrth-hiliol, rhaid i ni edrych ar ein strwythurau a'n gwasanaethau drwy lens hil, a 'dylunio allan' hiliaeth o'n systemau.
3. Mae gennym ni blatfform i ymhelaethu ar leisiau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac rydyn ni eisiau ei ddefnyddio. Mae eu profiadau'n bwysig, a rhaid i ni wrando'n weithredol bob amser. Ni allwn gael gwared ar rwystrau'n effeithiol os nad ydym yn gwrando ar y bobl sy'n eu hwynebu.



Sut?

Ein hymrwymiaethau:

- Gwella ein dealltwriaeth o hiliaeth, gwrth-hilioldeb a'i gysylltiad â thai a gwasanaethau drwy barhau i ddarparu a gwella hyfforddiant gwrth-hilioldeb a rhagfarn anymwybodol
- Defnyddio ein data i gael gwared ar rwystrau a deall yn well sut mae preswylwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn profi ein gwasanaethau
- Hyrwyddo diwylliant cynhwysol lle mae staff yn gyfforddus yn siarad am hil gyda'u cydweithwyr a chyda phreswylwyr
- Monitro cynnydd ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yn erbyn ein cynllun gweithredu.

Canlyniadau

- Mwy o ymwybyddiaeth a defnydd o arferion gwrth-hiliol
- Gwasanaethau a gwell ansawdd bywyd i gwsmeriaid a staff o leiafrifoedd ethnig
- Dealltwriaeth well o'n cwsmeriaid
- Grŵp staff sy'n adlewyrchu'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu, ac sy'n teimlo'n gyfforddus yn dod â'u hunain yn llawn i'r gwaith
- Cael ein cydnabod fel sefydliad gwrth-hiliol.

